

# Cyngor Cymuned Y Borth Community Council

## Cyngor ynghylch Clymog Japan


### Beth yw e?

Planhigyn ymledol, estron yw Clymog Japan ac mae ganddo goesynnau sy'n debyg i fambŵ a chansenni marw. Mae'n gallu tyfu'n llwyni trwchus.

### Sut olwg sydd arno?

Gwylwch am y nodweddion allweddol uchod. Ffynhonnell : Ysgrifenyddiaeth Rhywogaethau Estron Prydain Fawr

### Nodweddion Allweddol



### Pam mae'n broblem i bobl?

Mae'n gallu achosi difrod i adeiladau. Mae'n gallu treiddio trwy waliau ac asfalt os oes gwendid yno'n barod.

Fe allai leihau gwerth eich eiddo chi'n ddirfawr.

Fe allai ei gwneud hi'n anodd cael morgais.

Mae'n tagu'r planhigion brodorol a'r planhigion eraill sydd yn yr ardd.

Mae'n gallu difrodi glannau afonydd sy'n atal llifogydd.

Mae'n mynd ar led yn rhwydd mewn tameidiau bach o'r coesyn neu'r rhisom.



### Ymhle mae e?

Mae eisoes mewn rhai gerddi, ar lannau afonydd, dyfrffosydd, llwybrau troed a thir gwyllt. Mae angen ei atal rhag ymledu.

### Beth wnaif i?

Mynnwch olwg ar eich eiddo chi i weld a welwch chi Glymog Japan yno o gwbl.

Mae preswylwyr a pherchnogion tir yn gyfrifol am drin a rheoli Clymog Japan ar eu tir nhw.

Mae'n well mynd i'r afael â'r Clymog yn syth lle bynnag y mae. Trwy fod yn wyladwrus a mynd ati i weithredu, gallwn atal Clymog Japan rhag ymledu i ardaloedd newydd.

Gall coesyinnau byw, rhisomau'r gwreiddiau a phridd sydd â'r rheiny ynddo ledaenu Clymog Japan. Peidiwch â'i strimio na'i wasgaru yng ngwastraff yr ardd na mynd ag ef i Safle Gwastraff Cartref.

## Rheoli Clymog Japan

Os oes Clymog Japan yn eich gardd chi, ceisiwch ei rwystro rhag ymledu.

Sicrhewch nad oes darnau ohono, na choesynddau na gwreiddiau'n mynd o'r safle nac o'r ardd.

Gwylwch rhag ofn iddo dyfu eto a chadwch olwg ar y llefydd lle bu.

## Ei ddileu a'i ddadwreiddio - y posibiladau

### Heb ddefnyddio chwynladdwr

Torrwch y planhigyn wrth ei fôn (peidiwch â'i strimio) bob 2-4 wythnos yn ystod y tymor tyfu er mwyn gwanhau'r planhigyn, am hyd at 10 mlynedd.

Os oes darnau o'r bôn ar y llawr ac os torrwrch chi'r glaswellt, cofiwch losgi neu gompostio'r toriadau ar y safle.

Mae modd cloddio'r planhigion a'r pridd a mynd â nhw i safle tirlenwi trwyddedig - bydd cost sylweddol am hynny. Gofynnwch i Gyngor Sir Ceredigion am gyngor.

### Gyda chwynladdwr

Cliriwch y coesynddau marw o fis Tachwedd hyd fis Chwefror/Mawrth er mwyn medru mynd atynt i'w trin a gadewch nhw ar y safle i'w sychu a'u llosgi.

Ystyriwch roi pigiad ym môn y planhigyn a chwistrellu ardal gyfyngedig iawn er mwyn gwarchod rhag effeithio ar unrhyw ddŵr neu gynefinoedd lle mae rhywogaethau a warchodir yn trigo megis dyfrgrwn a llygod y dŵr a manau amwynder.

Rhowch sbot o chwynladdwr yn unig os yw'r llwyn yn fach. Ar gyfer llwyni mwy o faint chwistrellwch y chwynladdwr ar y dail neu'i chwistrellu i mewn i fôn y planhigyn. Defnyddiwch Glyphosate - mae'n gyffredin iawn mewn chwynladdwr masnachol.

Os ydych chi'n bwriadu trin y Clymog ddwywaith, gwnewch hynny'n gynnar yn y tymor tyfu (oddeutu mis Mai) a phan fydd y planhigion yn blodeuo (Awst/Medi). Os ydych chi'n bwriadu trin y Clymog unwaith yn unig, gwnewch hynny pan fydd y planhigyn yn blodeuo am ryw 3-5 mlynedd.

Rhowch nhw ar gynfasen. Gadewch iddyn nhw sychu a'u llosgi nhw ar y safle. Peidiwch â'u llosgi o fewn 10m at gysiau dŵr.

**Dilynwch y cyfarwyddiadau sydd ar label y chwynladdwr.** Peidiwch â chwistrellu os yw'n wyntog.

**Defnyddio chwynladdwr yn agos at ddŵr :** os cadwch chi at y meini prawf yma : <https://naturalresources.wales/apply-for-a-permit/water-discharges/using-herbicides/?lang=en> yna bydd Cyfoeth Naturiol Cymru'n fodlon.

**Eich cyfrifoldeb chi** yw sicrhau bod tystysgrifau gennych chi i ddefnyddio chwynladdwr yn ogystal â dillad gwarchodol personol.

## Beth sy'n digwydd eisoes?

Bydd Cyngor Cymuned y Borth, Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Sir Ceredigion yn cymryd y cyfrifoldeb dros drin y tir y maen nhw'n berchen arno neu'n ei reoli.

## Beth mae'r Gyfraith yn ei ddweud?

Does dim gorfodaeth ar dirfeddianwyr i reoli Clymog Japan ar eu tir ond mae'n drosedd plannu'r planhigyn neu beri iddo dyfu yn y gwyllt, ac os bydd yn lledaenu i'r gwyllt fe allech chi fod yn atebol am hynny (**Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981**)

Rhaid trin Clymog Japan fel 'gwastraff a reolir'. Mae'n rhaid iddo gael ei waredu gan ddeiliad trwyddedig i safle tirlenwi trwyddedig (**Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 & Rheoliadau (Dyletswydd Gofal) 1991**)

Rhaid i bawb sy'n defnyddio chwynladdwr sydd at ddefnydd proffesiynol, fod wedi derbyn hyfforddiant a thystysgrif neilltuol.

## Gwybodaeth a chysylltiadau

<https://www.ceredigion.gov.uk/English/Resident/Bins-Recycling/Garden-Waste/Pages/default.aspx>  
<http://www.nonnativespecies.org/home/index.cfm>

<http://www.rics.org/uk/knowledge/professional-guidance/information-papers/japanese-knotweed-and-residential-property-1st-edition/>

<http://www.property-care.org/homeowners/invasive-weed-control/>

Cyngor Cymuned Y Borth, Y Clerc  
[mirellaborth@googlemail.com](mailto:mirellaborth@googlemail.com)  
01970 871932

Cyngor Sir Ceredigion, Rachel Mills,  
[Rachel.Mills@ceredigion.gov.uk](mailto:Rachel.Mills@ceredigion.gov.uk)

Cyfoeth Naturiol Cymru  
[enquiries@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:enquiries@naturalresourceswales.gov.uk)  
0300 065 3000